ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

Mae Cyngor y Ddinas yn gorff etholedig o 20 Cynghorydd; mae ganddo'r un swyddogaethau a phwerau â Chyngor Tref neu Gymuned a hwn sydd agosaf at yr etholwyr. Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion amrywiol sy'n ymwneud â Dinas Bangor. Ar hyn o bryd mae ganddo ddau Bwyllgor sefydlog hefyd.

1 Y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau

Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori â Chyngor y Ddinas ar bob cais cynllunio a gyflwynir o fewn ei ffiniau, a hefyd ar Faterion Priffyrdd a cheisiadau Trwyddedu yn y Ddinas. Ystyrir y rhain gan y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau a gwneir sylwadau neu wrthwynebiadau i Gyngor Gwynedd fel y bo'n briodol ar y materion hyn. Mae gan y Pwyllgor awdurdod dirprwyedig ar yr ymgynghoriadau hyn. Bydd hefyd yn delio â materion gweithredol cyffredinol sy'n gysylltiedig ag eiddo'r Cyngor a materion mwynderau a bydd ganddo awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo taliadau os oes angen.

2 Y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn ystyried materion polisi cyffredinol ynghyd â materion sy'n ymwneud â chyllid, staffio ac eiddo a bydd ganddo awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo taliadau. Mae'r Pwyllgor yn ystyried ymgynghoriadau a sylwadau ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar fywyd dinasyddion Bangor gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Iechyd, yr Heddlu a chyrff cyhoeddus eraill sy'n gweithredu'n lleol.

Caiff Is-Bwyllgorau *ad hoc*, gweithgorau a phaneli eu penodi fel y bo'r angen i ddelio â materion penodol.

3 Mae Cyngor y Ddinas yn gyfrifol am dir ac eiddo ym Mangor, yn cynnwys:

Swyddfeydd Cyngor y Ddinas, Ffordd Gwynedd
Llawr gwaelod yr adeilad yw prif ganolfan Cyngor y Ddinas ac mae'n cynnwys swyddfeydd y Maer, y staff a derbynfa gyhoeddus.

Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd
Yma mae prif Siambr y Cyngor lle cynhelir cyfarfodydd Cyngor y Ddinas. Caiff y Neuadd ei rheoli fel neuadd gymunedol ac mae ar gael i'w llogi i'r cyhoedd, i grwpiau a mudiadau lleol ac i gynnal gwahanol achlysuron, cyfarfodydd a digwyddiadau.

Pier Bangor, Y Garth
Cyngor y Ddinas sydd berchen ar, yn gweithredu a chynnal a chadw Pier Bangor. Mae'n gosod Caffi'r Pafiliwn a'r Ciosgau manwerthu ar y Pier i denantiaid preifat. Dechreuodd gwaith adfer ym mis Tachwedd 2017 i sicrhau dyfodol yr Adeilad Rhestredig Gradd 2* eiconig hwn o oes Fictoria. Mae'r gwaith o adfer a thrwsio'r aradeiledd dur diffygiol a pheintio o dan y decin pren yn raddol yn dal i fynd rhagddo.

Stadiwm Pêl-droed Nantporth, Ffordd Caergybi
Mae'n berchen ar y stadiwm pêl-droed a'r cyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu gosod ar les i Nantporth C.I.C.

Canolfan Hafan, Ffordd Garth
Rheolir y cyfleuster hwn gan Age Concern Gwynedd a Môn ac mae wedi bod yn gweithredu fel partneriaeth lwyddiannus yn cynnig adnoddau cymunedol poblogaidd mewn lleoliad canolog i bobl leol ers blynyddoedd.

Llecynnau Agored Cyhoeddus
Yn berchen ar ac yn rheoli llecynnau agored yn y Ddinas yn cynnwys Caeau Ashley Jones oddi ar Ffordd Siliwn, Caeau Dargie oddi ar Ffordd y Dywysoges, tir Cadeirlan Bangor, parc ym Mryn Llwyd oddi ar Ffordd Caernarfon, yr Wylfa ar Ffordd Caergybi ac yn fwy diweddar Gerddi'r Garth

Coedlannau
Yn berchen ac yn rheoli coedlannau yn cynnwys Coed Menai, Ffordd Caergybi a Choed Penrhyn (rhwng gwaelod y Stryd Fawr a'r Cwrs Golff ar Fynydd Bangor).

Yn berchen ac yn gyfrifol am gynnal y canlynol hefyd:-

Y Gofeb Ryfel

Cloc y Dref (Adeilad Rhestredig Gradd 2 Fictoraidd)

Mae angen ychydig o waith atgyweirio ar hwn a gwnaed arolwg ym mis Chwefror 2019 ond ni chanfuwyd unrhyw broblemau difrifol gan yr arolwg.

Pier y Garth (Adeilad Rhestredig Gradd 2* Fictoraidd) (gweler uchod)

Depo a Gweithdy'r Cyngor

Tŷ'r Pier Feistr

Maes Parcio'r Pier

Lle chwarae wrth Faes Parcio'r Pier

Lle chwarae y tu allan i Storiel

Llwybrau Cyhoeddus
Yn gyfrifol am gynnal a chadw'r prif lwybrau cyhoeddus drwy Fangor.

Llochesi Bysus
Yn gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio'r rhan fwyaf o'r llochesi bysus.

Gweithredu a Rheoli Marchnad Agored dydd Gwener

Ym mis Mehefin 2018 gwnaed cytundeb gyda Chwmni Marchnad Bangor i Gyngor y Ddinas barhau i weithredu'r Farchnad yng Nghanol Dinas Bangor am gyfnod pellach o dair blynedd hyd at 2021.

4 Cyngor y Ddinas a Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am achlysuron Dinesig a Seremonïol yn y Ddinas megis gwasanaethau a gorymdeithiau Sul y Cofio, gorymdeithiau rhyddfraint a pharêds drwy strydoedd y Ddinas gan yr Awyrlu, RAF Fali, y Gatrawd Frenhinol Gymreig a'r Gwarchodlu Cymreig.

Mae'n rhoi cyllid a chefnogaeth ariannol i grwpiau a chlybiau cymunedol lleol yn ogystal â rhoi cefnogaeth ariannol a chymorth ac yn cyd-drefnu ac ariannu nifer o ddigwyddiadau a gynhelir yn y Ddinas.

Mae'n gyfrifol am ddarparu a chynnal **goleuadau ac addurniadau Nadolig** yn ogystal â **basgedi crog a rhai arddangosiadau o flodau** yng Nghanol y Ddinas.

Tra bod y Cyngor yn rheoli'r **Farchnad Wythnosol** yn y Stryd Fawr, bu hefyd yn cymryd rhan mewn trefnu'r Ŵyl Fwyd a'r Farchnad Nadolig, dau achlysur poblogaidd iawn.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â **Chyngor Gwynedd** yn enwedig o ran materion amgylcheddol, delwedd, sbwriel ac adeiladwaith y Ddinas a'r gymuned fusnes drwy **Ardal Gwella Busnes Bangor (AGB)**

(sy'n ymdrin ag ardal fasnachol canol y Ddinas). Sefydlwyd **Grŵp Delwedd Bangor** i ystyried materion o'r fath gyda gwahanol bartneriaid.

Sefydlwyd hefyd **Partneriaeth Strategol Bangor,** gyda rhanddeiliaid lleol amlwg yn aelodau, i gydweithio a gweithio ochr yn ochr i yrru Strategaeth a Gweledigaeth i Ddinas Bangor. Mae hyn yn cynnwys comisiynu, cytuno ar a llywio Cynllun Gweithredu ar gyfer cyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus gyda chynnyrch a deilliannau clir yn sail i'r cynllun, yn dilyn gwaith da hen Bartneriaeth Canol y Ddinas.

5 Gweithgareddau yn ystod y Flwyddyn

Grŵp Delwedd Bangor

Tynnwyd byrddau 'Ar Osod' Tai Amlfeddiannaeth /Myfyrwyr o bob eiddo yn y Ddinas. Gwellodd hyn yr amwynder gweledol ac ymddangosiad cyffredinol yr ardal, yn dilyn sylwadau a phryderon am nifer yr arwyddion oedd i'w gweld.

Mae gan swyddogion Cyngor Gwynedd gytundeb yn ei le gydag asiantaethau gosod fel eu bod yn glynu at y cod hwn.

Tynnwyd oddeutu 1000 o fyrddau. Materion parhaus eraill sy'n cael sylw yw sbwriel, casglu/ailgylchu gwastraff, torri'r gwair ac adeiladwaith y Stryd Fawr.

Gwnaed hyn drwy waith Grŵp Delwedd Bangor o dan Gadeiryddiaeth Maer Bangor, y Cynghorydd John Wynn Jones.

Adfer y Pier

Gwnaeth Cyngor y Ddinas benderfyniad yn 2016 i atgyweirio ac adfer Pier y Garth. Nid oedd unrhyw waith cynnal a chadw sylweddol wedi'i wneud ers nifer o flynyddoedd ac roedd angen ei adnewyddu. Roedd y rhaglen adnewyddu ac adfer ddiwethaf yn 1986.

Oherwydd natur ansicr y gwaith, roedd angen sgaffaldiau sylweddol a chreadigol. Dechreuodd y gwaith yn hydref 2017 ar Gam 1 ac aeth ymlaen i Gamau 2 a 3. Roedd gofyn cydymffurfio â'r rheoliadau i waredu'r holl ddeunydd gwastraff. Cymeradwywyd Trwydded Forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a bu'n rhaid cynnal trafodaethau â phartïon eraill a chanddynt fuddiant, yn cynnwys cael trwydded i weithredu gan Ystadau'r Goron.

Bu'n rhaid gwneud arolygon manwl wrth fynd ymlaen, a datgelodd y rheiny broblemau mwy a mwy heriol a hyd a lled dirywiad y metel. Roedd rhai llefydd mor ddrwg fel na ellid eu hachub a bu'n rhaid gosod cyplau a chynheiliaid dur newydd yn lle'r rhai oedd yn wan ac wedi pydru.

Bu'n rhaid cau pen draw'r Pier o ganlyniad i faterion diogelwch gyda'r cyplau mor wan a rhydlyd, doedd dim dewis ar y pryd, yn enwedig wedi gweld rhan o bier Bae Colwyn yn dymchwel.

Gwnaed gwaith Pen y Pier yn gynt na'r disgwyl ond byddai'r ardal hon yn aros ar gau i'r cyhoedd tan nad oedd yn safle adeiladu mwyach ac wedi ailadeiladu'r Pafiliwn. Rhagwelir agor i'r cyhoedd ym Mehefin/Gorffennaf 2019. Bellach mae strwythur y Pier yn ddiogel ac nid oes problemau iechyd a diogelwch.

Y Gofeb Ryfel

Cafodd plinthiau, grisiau, slabiau a llechi enwau Croes y Gofeb Ryfel eu hatgyweirio a'u hadnewyddu gan Gyngor y Ddinas fel rhan o Gofio Canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Llwyddwyd i wneud y gwaith hwn yn dilyn ceisiadau grant llwyddiannus i CADW a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn ogystal â chyfraniad gan Gyngor y Ddinas.

Roedd y gwaith yn cynnwys glanhau, trwsio'r garreg, ategu'r resin, ailbwyntio'r mortar, glanhau'r pres ac atgyweirio'r parapet, y garreg a'r gwaith bloc. Roedd hefyd yn golygu adnewyddu'r slabiau llechi ac ailbeintio'r llythrennau.

Parlwr y Maer a Neuadd y Penrhyn

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ystafell wedi cael ei hail-beintio, eleni cafwyd bwrdd cynhadledd a chadeiriau modern yn lle'r hen ddodrefn a gosodwyd carped newydd. Mae Neuadd y Penrhyn wedi cael ei huwchraddio dros y tair blynedd ddiwethaf gyda chegin fodern, Wi-Fi a chyfleusterau clyweledol; gosodwyd goleuadau sy'n fwy effeithlon o ran ynni hefyd. Mae gan y Neuadd drwydded i gynnal priodasau a gellir archebu'r rhain drwy Adran Cofrestrydd Cyngor Gwynedd.

Canolfan Galw Heibio Hafan, Ffordd Garth
Cafodd yr adeilad ei ail-beintio'n llwyr yn 2018 a gwnaed gwaith cynnal a chadw allanol oedd hefyd yn cynnwys gosod camerâu CCTV i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Llochesi Bysus. Cynhaliwyd adolygiad ac asesiad o'u cyflwr. Gwnaed rhywfaint o waith trwsio a pheintio hefyd mewn ymateb i fandaliaeth a graffiti, ac mae mwy i'w wneud.

Llecynnau Agored a Llefydd Chwarae

- **Cae Ashley Jones.** Gwnaed gwaith cynnal a chadw hanfodol, roedd y wal allanol wedi'i difrodi ddwy waith wedi i gerbydau fynd i mewn iddi yn y tywydd rhewllyd ac mae bellach wedi'i hailadeiladu.
- **Llefydd Chwarae.** Mae dau safle Cyngor y Ddinas wedi cael arolygiad RoSPA ac adroddiad. Gwnaed cynnal a chadw hanfodol, yn cynnwys cynnal a chadw arferol, a rhoi darnau newydd yn lle'r rhai a ddifrodwyd ar y ddau safle.
- **Coed Menai a Choed Penrhyn/Mynydd Bangor.**

Gwnaed gwaith trin coed a gwaith brys yn ystod y deuddeg mis diwethaf gan wneud yr ardal yn ddiogel i gerddwyr a modurwyr. Mae mwy o waith i'w wneud yn y safleoedd hyn yn y flwyddyn sy'n dod.

Dathlu Canmlwyddiant yr RAF 8 Medi 2018

Fel rhan o raglen o ddigwyddiadau yng Nghymru i goffau a dathlu Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol, gwelwyd gorymdaith fawr a dathliad yn Ninas Bangor ddydd Sadwrn 8 Medi. Roedd y digwyddiad hwn yn un o'r rhai i ddod â'r Canmlwyddiant i ben ac roedd yn cydnabod y cysylltiadau cryf sydd wedi bod rhwng Gogledd Cymru a'r Awyrlu dros y 100 mlynedd. Cafwyd Gwasanaeth Canmlwyddiant arbennig yn y Gadeirlan yn y bore ac yna gorymdaith gyda'r RAF yn dangos arfau wrth y Gofeb Ryfel, a chael eu croesawu i'r Ddinas gan Ei Deilyngdod Maer Bangor, Arglwyddi Rhaglaw Gwynedd a Chlwyd ynghyd â gwesteion o bob rhan o Ogledd Cymru. Prif swyddog yr RAF yn yr orymdaith oedd Marsial yr Awyrlu Michael Wigston, a gafodd ei fagu ym Mangor ac a fu'n ddisgybl yn Ysgol Friars.

6) Cynlluniau Adfywio Canol y Dref

Dros y 3-4 mlynedd ddiwethaf, mae Cyngor y Ddinas wedi rhoi nifer o gynlluniau ar waith gyda'r nod o adfywio'r Stryd Fawr.

- **Y Farchnad Wythnosol**

Bu'r farchnad ddydd Gwener yn nodwedd lwyddiannus iawn yn y Stryd Fawr yn dod â chynnydd sylweddol o siopwyr i'r ardal fanwerthu, gyda'r rhan fwyaf o siopau a busnesau yn dweud bod mwy o bobl a mwy o werthiant ar ddiwrnodau marchnad. Mae'r farchnad hefyd yn rhan hollbwysig o gynllun Cyngor y Ddinas i adfywio'r Stryd Fawr. Trafodwyd a llofnodwyd Cytundeb newydd gyda Chwmni Marchnad Bangor ym mis Mehefin 2018 i ddarparu'r Farchnad tan 2021. Roedd Cyngor y Ddinas a'r Cwmni Marchnad yn hapus iawn i symud ymlaen â'r cytundeb hwn sydd yn ddi-os yn cyfoethogi sector manwerthu'r Ddinas.

- **Grŵp Partneriaeth Strategol Bangor**

Datblygwyd y Rheolaeth Strategol a'r Cynllun Gweithredu i'r Ddinas fel un o allbynnau'r hen Bartneriaeth Canol y Ddinas a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor y Ddinas a Llywodraeth Cymru. Erbyn hyn mae Partneriaeth Strategol Bangor wedi cymryd drosodd gan ddefnyddio'r Cynllun Gweithredu newydd i ddatblygu nifer o brosiectau a gwneud cais am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill fyddai o fudd i'r Ddinas. Mae'r Grŵp hwn yn ymdrin â'r amgylchedd, yr economi, delwed, iechyd a thai gyda'r partneriaid i gyd yn cyfrannu ato.

- **Prifysgol Bangor ac Ardal Gwella Bangor (AGB)**

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r AGB, Cyngor Gwynedd a'r Brifysgol i wneud gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd, lles a'r economi leol.

- **Goleuadau Nadolig**

Drwy gynnal a gosod ei oleuadau ei hun yn hytrach na mynd i gontract allanol, mae Cyngor y Ddinas yn arbed hyd at £20,000 y flwyddyn. Caiff y coed Nadolig eu noddi gan AGB Bangor.

- **Gerddi Diana, Ffordd Caernarfon**

Cafwyd rhaglen fawr o adfer ac adnewyddu yn haf 2018 i wella ac ailwampio'r ardal hon

- **Gwasanaethau Gwynedd – Cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Mae Cyngor y Ddinas wedi cynnal a chadw rhai Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y Ddinas ers nifer o flynyddoedd drwy gyfrwng cynllun ad-dalu. Torrwyd yr ad-daliad yn llym gan Gyngor Gwynedd yn y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag mae Cyngor y Ddinas yn dal i gynig y gwasanaeth cynnal a chadw'r llwybrau am gyfradd lawer is.

- **Gwasanaethau Gwynedd Eraill**

Mae Cyngor y Ddinas wedi cytuno i gyfrannu £10,000 tuag at gadw'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn y Ddinas ar agor am y ddwy flynedd nesaf. Cafodd Gerddi Garth eu cynnal a'u chadw gan Gyngor y Ddinas am y tro cyntaf fel cynllun peilot yn 2018. Mae Cyngor y Ddinas hefyd yn talu am ddarparu graean i'r biniau halen ac mae cyfraniad yn mynd at CCTV at atal torcyfraith yn y Ddinas, sydd bellach yn destun adolygiad ac ystyried camerâu newydd. Mae meysydd eraill y mae Cyngor Gwynedd arfer eu darparu yn dod i'r amlwg hefyd o ystyried y diffyg cyllid presennol i Lywodraeth Leol ac mae Cyngor y Ddinas yn chwilio am ffyrdd o gynorthwyo gyda'r gwasanaethau.

6 Dyheadau am y flwyddyn sydd i ddod

- **Parhau i wasanaethu'r cyhoedd a'r Ddinas**
- **Parhau i gynnal gwasanaeth rhagorol, effeithiol ac effeithlon o fewn terfynau'r adnoddau ariannol cyfyngedig**
- **Bod yn bartneriaid gweithgar ym Mhartneriaeth Strategol Bangor, ei Is-Grwpiau a Grŵp Delwedd Bangor**
- **Parhau i weithio gyda phartneriaid y tu allan i'r grwpiau hyn i sicrhau perthnasau cryf, iach a hirhoedlog a fydd o fudd i'r Ddinas a'i thrigolion a'i myfyrwyr**
- **Bod yn ymatebol, yn rhagweithiol ac yn ymatebol lle bo angen**
- **Bod yn rhan ganolog o welliannau o safbwynt cynlluniau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol**
- **Hyrwyddo a chefnogi ymgyrch i gael 'Bangor Di-Blastig'**
- **Cynnal a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg**
- **Cymryd rhan yn y broses gynllunio drwy gynnig safbwyntiau, barn a chyngor ar y ceisiadau a'r ymgynghoriadau a dderbynnir**
- **Cefnogi mentrau am fusnesau a siopau newydd a chreu swyddi**
- **Gweithredu gyda llywodraethu da ac unplygrwydd mewn modd agored, tryloyw a democrataidd o fewn terfynau deddfwriaeth**
- **Cynnal cod ymarfer, rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyfreithiol gyda'r cyngor priodol**

7 Blaenoriaethau Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn

1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach

2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol

3. Deall effaith newidiadau demograffeg

4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg

5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor

6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol

8. Effaith tlodi ar lesiant

9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

Dim ond dylanwad cyfyngedig y gall Cyngor y Ddinas ei gael yn nifer o'r blaenoriaethau hyn ond mae wedi dangos ei fwriadau i gynorthwyo a chymryd rhan mewn nifer o gynlluniau, digwyddiadau a phartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer o'r agweddau hyn.

Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol

Ebrill 2019